| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 30 Ionawr 2014 |
| Teitl: | Grant Datblygu Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned |
| Awdur: | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro |

**1.0 Cefndir**

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid i Gynghorau Sir er mwyn iddynt gynnig grant o hyd at £500 yr un i gynghorau tref a chymuned, gan gynnwys y rhai hynny sydd â gwefan eisoes, i'w wario ar ddatblygu gwefannau.

1.2 Pwrpas y grant oedd cynorthwyo cynghorau tref a chymuned i baratoi ar gyfer y Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sy'n cynnwys darpariaethau lle byddai'n ofynnol i bob cyngor cymuned gyhoeddi gwybodaeth ar wefan.

1.3 Fe ddywedais wrth y Pwyllgor hwn ar 1 Hydref 2013 bod £20,000 o gyllid wedi ei ddyrannu tuag at gynorthwyo cynghorau tref a chymuned Ynys Môn i ddatblygu gwefannau a bod y dyraniad wrthi'n cael ei ddosbarthu i gynghorau cymuned.

**2.0 Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

2.1 Dyma'r sefyllfa ddiweddaraf o ran dyrannu'r grant:

- 23 o gynghorau wedi hawlio'r grant
- 6 chyngor wedi rhoi gwybod i ni un ai eu bod yn bwriadu hawlio'r grant neu'n parhau i ystyried y mater
- 11 o gynghorau wedi rhoi gwybod i ni nad ydynt yn bwriadu hawlio'r grant

2.2 Roedd yr arweiniad gwreiddiol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod angen defnyddio'r arian cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Deallir y bydd arweiniad pellach yn cael ei ddarparu ar gyfer awdurdodau lleol maes o law mewn perthynas â defnyddio'r grant yma.

**3.0 Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa ddiweddaraf.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro** **22 Ionawr 2014**